# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# Protocol Cynllunio

Cymeradwywyd ar 30 Ionawr 2004

Adolygwyd a diweddarwyd ar 16 Rhagfyr 2022

Dyddiad adolygu nesaf: 2025

# PROTOCOL CYNLLUNIO
# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

CYNNWYS

1.0 Cyflwyniad
Diben
Gweithredu
Cod Ymddygiad

2.0 Lobïo

3.0 Aelodaeth o Awdurdod Lleol arall

4.0 Ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio â safleoedd

5.0 Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio

6.0 Penderfyniadau sy'n groes i argymhelliad Swyddog a/neu'r Cynllun Datblygu

7.0 Cynigion datblygu a gyflwynir gan Aelodau/Swyddogion

8.0 Cynigion datblygu a gyflwynir gan yr Awdurdod

9.0 Hyfforddi a monitro

10.0 Cwynion/Cadw cofnodion

11.0 Gweithdrefnau galw ceisiadau i mewn

# Protocol Cynllunio

## 1.0 Cyflwyniad

### Diben

1.1 Mae'r Protocol Cynllunio hwn wedi'i fabwysiadu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i arwain y modd y mae'n cyflawni ei swyddogaeth gynllunio. Dyma amcanion y Protocol:

- Rhoi arweiniad i Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod wrth iddynt ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â chynllunio;
- Rhoi arweiniad mwy manwl ynghylch y safonau sydd i'w gweithredu mewn perthynas â materion cynllunio'n benodol;
- Gweithredu canllawiau mewnol yng nghyswllt y modd y bydd yr Awdurdod yn ymdrin â materion cynllunio;
- Rhoi gwybod i ddefnyddwyr posibl y gwasanaeth cynllunio, ac aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, am y safonau a fabwysiedir gan yr Awdurdod wrth gyflawni ei swyddogaeth gynllunio.

1.2 Mae'r Protocol Cynllunio yn ychwanegol at God Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer Aelodau, ond mae'n bosibl bod rhai darpariaethau yn y Protocol yn ymdrin i ryw raddau â materion y mae'r Cod Ymddygiad yn ymdrin â nhw hefyd.

1.3 Un o nodau allweddol y system gynllunio yw cydbwyso buddiannau preifat o ran datblygu tir â budd ehangach y cyhoedd. Wrth gyflawni'r rôl honno, mae'n anorfod bod cynllunio'n effeithio ar fuddiannau'n ymwneud â thir ac eiddo, yn enwedig gwerth ariannol daliadau tir ac ansawdd eu lleoliadau. Yn aml, bydd gan y sawl dan sylw safbwyntiau cryf sy'n groes i'w gilydd.

1.4 Er bod yn rhaid i Aelodau sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch cynllunio ystyried y safbwyntiau hynny, ni ddylent ffafrio unrhyw berson, unrhyw gwmni, unrhyw grŵp nac unrhyw ardal, na'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle gallai ymddangos eu bod yn gwneud hynny. Felly, mae'n bwysig bod yr awdurdod cynllunio'n sicrhau bod penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar y buddiannau hynny'n cael eu gwneud mewn modd agored, diduedd a chraff ac am resymau y gellir eu cyfiawnhau.

1.5 Bydd y Protocol hwn yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol llawn bob tair blynedd.

1.6 Bwriedir i ddarpariaethau'r Protocol Cynllunio hwn sicrhau, pryd bynnag y bydd Aelodau'n ystyried mater sy'n ymwneud â'r swyddogaeth gynllunio, bod yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud am resymau cynllunio priodol ac mewn modd cyson ac agored ac y canfyddir bod yr Aelodau sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath yn atebol am y penderfyniadau hynny. Yn ogystal, bwriedir i'r Protocol Cynllunio gynorthwyo Aelodau i ymdrin ag achosion lle mae ymgeiswyr/datblygwyr a thrydydd partïon yn cysylltu â nhw, a bwriedir iddo sicrhau bod y broses benderfynu'n un gadarn. Fel hynny, caiff y posibilrwydd o her gyfreithiol neu gŵyn yn erbyn yr

Awdurdod, ei Aelodau neu'i Swyddogion unigol ynghylch gwneud penderfyniadau cynllunio priodol ei leihau.

1.7 Er bod gan Aelodau gyfrifoldeb personol i sicrhau eu bod yn ymddwyn bob amser yn unol â gofynion y protocol hwn, dylai'r Aelodau ymgynghori â Swyddogion yr Awdurdod, gan gynnwys y Swyddog Monitro, os ydynt yn ansicr o gwbl ynghylch sut i weithredu gofynion y protocol dan unrhyw amgylchiadau.

## Gweithredu

1.8 Dylai'r arweiniad hwn gael ei ddilyn gan yr holl Aelodau, nid yn unig mewn perthynas â llunio a mabwysiadu polisïau cynllun datblygu ond hefyd mewn perthynas â swyddogaethau rheoli datblygu (ceisiadau cynllunio o bob math gan gynnwys cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth, tystysgrifau datblygiad cyfreithlon, hysbysiadau a phenderfyniadau ynghylch unrhyw faterion gorfodi a gorchmynion cadw coed, ac ati). Mae'n berthnasol hefyd i gyfarfodydd yr Awdurdod wrth ymdrin â materion o'r fath ac mae'n berthnasol i ymddygiad Aelodau hyd yn oed cyn bod cais neu gynnig ffurfiol yn cael ei gyflwyno.

1.9 Gallai methu â chydymffurfio â'r Protocol Cynllunio hwn arwain at y canlynol neu chwarae rhan sylweddol yn y canlynol:

- Ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion am gamweinyddu neu honiadau ynghylch methu â glynu wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau;
- Atgyfeiriad i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod;
- Trafodion Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys;
- Apeliadau i Lywodraeth Cymru (e.e. mewn perthynas ag unrhyw achosion o ddyfarnu costau);
- Cwynion am ymddygiad Swyddogion.

1.10 Mae'r Protocol hwn yn berthnasol i bob Aelod a Swyddog sy'n ymwneud â gweithredu'r system gynllunio. Mae cael y system gynllunio i weithredu'n llwyddiannus yn dibynnu ar gyd-ymddiriedaeth ac ar ddealltwriaeth y naill o rôl y llall. Mae hefyd yn dibynnu ar drefn lle mae'r naill a'r llall yn sicrhau eu bod yn gweithredu mewn ffordd sydd nid yn unig yn deg ac yn ddiduedd mewn gwirionedd ond hefyd yn deg ac yn ddiduedd mewn ffordd amlwg.

## Cod Ymddygiad

1.11 Mae Cod Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer Aelodau yn nodi gofynion gorfodol ynghylch buddiannau personol, y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw drwy gydol y broses benderfynu. At hynny, dylai Aelodau roi sylw i arweiniad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ni ddylai buddiannau personol Aelodau (gan gynnwys buddiannau'r sawl y maent yn byw gyda nhw, y maent yn cael eu cyflogi ganddynt neu y mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw fel arall) ddylanwadu ar benderfyniadau, ac ni ddylai penderfyniadau gael eu gwneud oherwydd pwysau gormodol gan ymgeiswyr, asiantiaid neu drydydd partïon megis Cynghorau Tref neu Gymuned. Mae hynny'n angenrheidiol er mwyn osgoi rhoi'r argraff bod unrhyw beth neu unrhyw un wedi dylanwadu ar benderfyniadau.

1.12 Aelodau unigol sy'n gyfrifol am ddatgan buddiant personol. Mae gan Swyddogion gyfrifoldeb tebyg. Os ceir ansicrwydd, dylai Aelodau ofyn i'r Swyddog Monitro am gyngor ynghylch perthnasedd y Cod. Mae rhoi gwybod yn gynnar am fuddiannau y mae gofyn eu datgelu yn arbennig o bwysig er mwyn ei gwneud yn bosibl ystyried y materion yn briodol. Mae'r Protocol Cynllunio hwn yn nodi rheolau pellach sy'n berthnasol i'r broses gynllunio yn yr Awdurdod.

1.13 Yn ychwanegol at God Ymddygiad yr Awdurdod, dylai Aelodau fod yn ymwybodol y dylai Swyddogion Cynllunio fod yn ymddwyn ac yn rhoi cyngor yn unol â Chod Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol. Mae'n rhaid i Swyddogion sy'n aelodau o'r Sefydliad lynu wrth y cod hwnnw, a bydd y sawl nad ydynt yn aelodau eto yn cael eu hannog i ddod yn aelodau ac i gydymffurfio â'r cod.

**2.0 Lobïo**

2.1 Mae'n bosibl y bydd Aelodau yn cael eu lobïo am faterion cynllunio ac am geisiadau cynllunio penodol. Pan fydd hynny'n digwydd, bydd yn hanfodol cymryd gofal mawr er mwyn cynnal integriti'r Awdurdod, ac yn wir integriti'r Aelod ei hun, a chynnal canfyddiad y cyhoedd o'r broses gynllunio.

2.2 Bwriad yr adran hon yw sicrhau:

- Bod safonau uchel yn cael eu cynnal pan fydd penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud;
- Nad amherir ar integriti'r broses benderfynu, mewn gwirionedd nac o ran canfyddiad, trwy lobïo'r Aelodau hynny a fydd yn gwneud penderfyniadau;
- Bod y ffaith bod lobïwyr[2] wedi cysylltu'n cael ei chofnodi, a bod unrhyw sylwadau a wnaed i Aelodau yn rhan o'r wybodaeth gyhoeddus sy'n arwain at unrhyw benderfyniad.

2.3 Er mwyn osgoi peryglu eu sefyllfa trwy wneud penderfyniad cyn eu bod wedi cael yr holl wybodaeth berthnasol, mae'n rhaid i Aelodau:

- Gymryd gofal yn ystod unrhyw gyswllt â phartïon sydd â buddiant[1], er mwyn sicrhau nad oes unrhyw barti'n dylanwadu arnynt yn ormodol ac er mwyn osgoi ei gwneud yn hysbys ymlaen llaw a ydynt yn cefnogi ynteu'n gwrthwynebu'r cynnig. Os yn bosibl, dylai unrhyw gyfarfodydd ag Aelodau gael eu trefnu a'u mynychu gan Swyddog Cynllunio priodol a dylent gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio neu rywun sy'n cynrychioli'r Cadeirydd;
- Peidio â chynghori partïon sydd â buddiant[1] na'u hasiantiaid ynghylch y tebygolrwydd y bydd cynigion cynllunio'n cael eu derbyn;
- Cyfyngu eu barn i roi cyngor ynghylch gweithdrefnau a gwrando ar bryderon a safbwyntiau;
- Cyfeirio lobïwyr[2] at Swyddogion Cynllunio, a darparu eu sylwadau yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cynllunio perthnasol a fydd yn cynnwys cyfeiriad at eu sylwadau, lle bônt yn berthnasol, yn eu hadroddiad;
- Peidio â threfnu cefnogaeth o blaid nac yn erbyn cynnig cynllunio;
- Peidio â lobïo Aelodau eraill;
- Peidio â rhoi pwysau ar Swyddogion i wneud argymhelliad penodol yn eu hadroddiad;

- Peidio â dosbarthu papurau answyddogol i Aelodau eraill nac yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio;
- Peidio â mynd i safle'r cais gyda phartïon sydd â buddiant neu'u cynrychiolwyr;
- Peidio â chaniatáu i'r rhai y maent yn byw gyda nhw, y maent yn cael eu cyflogi ganddynt neu y mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw fel arall ddylanwadu'n ormodol ar eu penderfyniad.

yn y protocol hwn mae [1]***partïon sydd â buddiant*** yn cynnwys ymgeiswyr/asiantiaid ac ymgyngoreion statudol, ac mae [2]***lobïwr*** yn cynnwys yr ymgeisydd, cefnogwyr, gwrthwynebwyr, asiantiaid, ffrindiau, aelodau o'r teulu agosaf, ac aelodau o'r teulu estynedig sy'n perthyn trwy briodas ac ati.

2.4 Os yw Aelod sy'n rhan o'r broses o benderfynu ynghylch materion cynllunio wedi cael ei lobïo, dylai hysbysu'r Pwyllgor perthnasol ei fod wedi cael ei lobïo a chan bwy. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Aelodau weithredu er budd y cyhoedd ac nid ar gais unrhyw unigolyn neu fuddiant. Os yw'r Aelod yn teimlo nad oes ganddo feddwl agored mwyach mewn perthynas â mater cynllunio, neu fod ei ddidueddrwydd wedi'i beryglu neu y gellid canfod ei fod wedi'i beryglu, dylai weithredu fel pe bai ganddo fuddiant rhagfarnus a gadael y cyfarfod. Os yw Aelod yn teimlo ei fod yn cael ei lobïo'n ormodol, dylai gysylltu â'r Swyddog Monitro i gael cyngor.

2.5 Os yw Aelod sy'n rhan o'r broses o benderfynu ynghylch materion cynllunio wedi ymateb i lobïo trwy ddadlau'n agored o blaid dull gweithredu penodol cyn cyfarfod Pwyllgor, ac y gallai fod amgylchiadau lleol penodol lle ystyrir bod hynny'n briodol, dylai'r Aelod hwnnw weithredu fel pe bai ganddo fuddiant rhagfarnus a gadael y cyfarfod.

2.6 Er paragraffau 2.4 a 2.5 uchod, os yw Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn eitem y mae angen penderfynu yn ei chylch, yna dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau caniateir o hyd iddo siarad fel pe bai'n aelod o'r cyhoedd, yn unol â'r darpariaethau a'r weithdrefn a nodir yn y Polisi ynghylch Presenoldeb Aelodau'r Cyhoedd mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau a Chyfleoedd Iddynt Siarad Ynddynt. Fodd bynnag, yr Aelod fydd y siaradwr cyntaf, a bydd wedyn yn gadael cyfarfod y Pwyllgor tra bydd yr eitem yn cael ei thrafod. Ni fydd yr Aelod yn chwarae unrhyw ran wrth i'r Pwyllgor drafod ac ystyried yr eitem y mae angen penderfynu yn ei chylch.

2.7 Efallai y bydd Aelodau sy'n rhan o'r broses o benderfynu ynghylch materion cynllunio, sy'n eu cael eu hunain mewn sefyllfa lobïo, yn dymuno cymryd camau i atal hynny rhag digwydd ac i egluro y gallant wrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud ond y cânt eu cyfyngu rhag mynegi unrhyw farn neu fwriad i bleidleisio'r naill ffordd neu'r llall.

2.8 Os yw Aelodau sy'n rhan o'r broses o benderfynu ynghylch materion cynllunio'n bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gallant wrando ar y ddadl am faterion cynllunio cyfredol a gallant roi cyngor am faterion megis y gweithdrefnau sy'n rhan o'r broses o benderfynu ynghylch cais, ystyried datblygu anawdurdodedig ac ati. Os yw Aelodau'n gweld ei bod yn briodol iddynt fynegi barn am fater mewn cyfarfodydd

o'r fath er mwyn dangos eu bod wedi dod i benderfyniad ynghylch y cynnig er enghraifft, dylent weithredu wedyn fel pe bai ganddynt fuddiant rhagfarnus a gadael y cyfarfod pan fydd y mater yn cael ei drafod.

2.9 Os yw Aelod yn cael sylwadau ysgrifenedig yn uniongyrchol mewn perthynas â mater cynllunio, cynnig yn ymwneud â chynllun lleol, mater gorfodi ac ati, bydd yr Aelod yn trosglwyddo'r ohebiaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol i'r Pennaeth Rheoli Datblygu er mwyn i'r sylwadau hynny allu cael eu hystyried mewn unrhyw adroddiad i'r Pwyllgor. Nid yw hynny'n berthnasol i lythyrau sy'n dangos bod copïau wedi cael eu hanfon i'r Awdurdod hefyd.

2.10 Os ceir cyfeillgarwch neu berthynas deuluol uniongyrchol neu drwy briodas, sy'n gysylltiedig â chais cynllunio neu bolisi/cynnig yn ymwneud â chynllun datblygu, dylai Aelodau weithredu fel pe bai ganddynt fuddiant rhagfarnus a gadael y cyfarfod.

## 3.0 Aelodaeth o Awdurdod Lleol arall

3.1 Gall Aelod sydd hefyd yn aelod o gyngor tref, cyngor cymuned neu gyngor arall drafod mater cynllunio ar y lefel honno.

3.2 Os yw'r Aelod wedi rhoi'r argraff yng nghyfarfod y cyngor arall, neu yn wir yn unrhyw le arall, ei fod wedi dod i benderfyniad yn ystod y ddadl neu wrth bleidleisio ar fater cynllunio penodol, cyn clywed yr holl wybodaeth a'r holl gyngor a gyflwynir yn ddiweddarach yng nghyfarfod yr Awdurdod, mae'n debygol yr ystyrir ei fod wedi penderfynu rhag blaen ynghylch y mater (h.y. bod ganddo feddwl caeëdig).

3.3 Dan yr amgylchiadau hynny, ni ddylai'r Aelod gymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio pan gaiff y mater cynllunio penodol hwnnw ei drafod. Fel arall, gallai'r ffaith ei fod yn cymryd rhan arwain at gŵyn am gamweinyddu neu at her gyfreithiol arall i benderfyniad y Pwyllgor.

## 4.0 Ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio â safleoedd

4.1 Ymarferion ymchwilio yw ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio â safleoedd, sy'n galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i wneud penderfyniad mwy gwybodus nag a fyddai'n bosibl fel arall o ddarllen adroddiad y Swyddog, gan gynnwys cyflwyniadau gweledol, ac o ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor gan bartïon sydd â buddiant. Ni ddylai'r Pwyllgor Cynllunio gynnal ymweliadau â safleoedd oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau ymweliad o'r fath (h.y. rhaid dangos yn glir bod archwilio'r safle yn hanfodol i'r broses benderfynu, h.y. na ellir gwneud penderfyniad priodol heb archwilio'r safle).

4.2 Dim ond mewn perthynas ag unrhyw gais cynllunio neu gais cysylltiedig na phenderfynwyd yn ei gylch ac y bydd y Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu yn ei gylch y dylid cynnal ymweliadau â safleoedd. Yn rhan o'r broses benderfynu ffurfiol, gall y Pwyllgor Cynllunio benderfynu y dylid cynnal ymweliad ffurfiol â safle os yw'n gwbl fodlon bod un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- Yr ystyrir bod y cais yn gofyn am farn Aelodau ar sail nodweddion y safle neu ddeongliadau gweledol nad ydynt yn bosibl yn hwylus o edrych ar ffotograffau, sleidiau, fideos, lluniau drôn ac ati – e.e. yr effaith ar amwynder;

yr effaith ar ddiogelwch priffyrdd a llif traffig; yr effaith ar gymeriad yr ardal; yr effaith ar gymeriad neu leoliad adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth; yr effaith ar drefwedd neu dirwedd; a/neu

- Fod y cynnig yn un arbennig o gymhleth; a/neu
- Fod y cynnig yn ymwneud â math o ddatblygiad sy'n newydd ac a allai olygu bod angen ymweld â safle sefydliad presennol yn ogystal â safle'r cynnig er mwyn deall y goblygiadau cynllunio posibl; a/neu
- Fod gwaith datblygu wedi dechrau neu wedi'i gwblhau a'i fod yn waith a fyddai fel arfer yn golygu, pe bai caniatâd cynllunio'n cael ei wrthod, y byddai'n ofynnol cymryd camau gorfodi, ac y byddai archwiliad o'r safle o gymorth i benderfynu ynghylch buddioldeb camau o'r fath.

4.3 Pan gaiff ymweliad â safle ei gynnig yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, bydd y cynigydd yn nodi pa un/pa rai o'r meini prawf a restrir uchod neu ba reswm cynllunio da arall sy'n berthnasol. Bydd pleidlais ffurfiol yn cael ei chynnal ynghylch a ddylid cynnal ymweliad â safle neu beidio, ac os pleidleisir o blaid ymweliad â safle bydd y cynnig yn cynnwys y rhesymau dros gynnal yr ymweliad.

4.4 Yn ôl disgresiwn y Pennaeth Rheoli Datblygu a fydd yn ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle, ac fel y cytunwyd â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, pan fydd y mater cynllunio yn un arbennig o ddadleuol a/neu o faint sy'n golygu y byddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr ardal o safbwynt harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, asedau amgylcheddol, trafnidiaeth neu les y cyhoedd ac y byddai cynnal ymweliad â'r safle o fudd sylweddol ac amlwg, bydd ymweliad â'r safle yn cael ei drefnu CYN cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio.

4.5 Bydd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio lle gwneir y penderfyniad yn cofnodi'r rheswm dros yr ymweliad arfaethedig â'r safle.

4.6 Bydd unrhyw Siaradwyr Cyhoeddus sy'n bresennol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio lle mae'r Aelodau wedi penderfynu y bydd ymweliad â safle'n cael ei gynnal yn cael dewis rhwng rhoi eu cyflwyniadau yn y cyfarfod hwnnw neu'u rhoi yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Cynllunio.

4.7 Dylai pob un o aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wneud eu gorau glas i fynychu ymweliad â safle os ydynt yn bwriadu pleidleisio er mwyn penderfynu ynghylch y cais cynllunio sydd dan sylw. Gellir amau'r rhan y mae Aelod wedi'i chwarae wrth benderfynu ynghylch ceisiadau o'r fath os na wnaeth fynychu ymweliad perthnasol â safle (h.y. a bod yr Aelod, o ganlyniad, yn methu â phleidleisio ar sail dealltwriaeth o'r holl faterion perthnasol). Mewn sefyllfa o'r fath, bydd yr Aelod yn gofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro a bydd y cyngor hwnnw, pryd bynnag y bo'n ymarferol, yn cael ei roi'n ysgrifenedig a bydd copi ohono'n cael ei roi i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio cyn cyfarfod perthnasol y Pwyllgor Cynllunio.

4.8 Ni fydd Aelodau sy'n dod i'r casgliad na allant bleidleisio ynghylch y cais, o ganlyniad i gyngor o'r fath gan y Swyddog Monitro, yn cymryd rhan yn y broses o benderfynu ynghylch y cais dan sylw yn y Pwyllgor Cynllunio.

4.9 Bydd y Pennaeth Rheoli Datblygu a'r Gwasanaeth Cymorth Cynllunio yn trefnu ymweliadau o'r fath â safleoedd. Dylai'r llythyr/neges ebost sy'n hysbysu'r Aelodau ynghylch dyddiad a lleoliad yr ymweliad ffurfiol â'r safle gynnwys y rheswm dros yr ymweliad, gwybodaeth am y man cyfarfod, ac atodiad sy'n cynnwys cynllun o'r man cyfarfod, os oes angen. Bydd yr ymweliad â'r safle yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod â chyfarfod cyfleus nesaf y Pwyllgor Cynllunio neu cyn hynny. Bydd disgwyl i'r Gwasanaeth Cymorth Cynllunio sicrhau bod mynediad diogel i'r safle ar gael i Aelodau a Swyddogion ar y diwrnod, yn unol ag asesiad risg a gwblhawyd yn flaenorol.

4.10 Bydd yr ymgeisydd a/neu'r asiant yn cael eu hysbysu ynghylch y materion canlynol:

- Y bydd ymweliad â'r safle yn cael ei gynnal;
- Mai diben yr ymweliad â'r safle yw bod yr Aelodau yn deall yn iawn beth yw natur y safle a beth yw effeithiau amgylcheddol y datblygiad arfaethedig; ac
- Na fydd yr Aelodau yn ystyried unrhyw sylwadau gan yr ymgeisydd nac unrhyw sylwadau gan drydydd parti.

4.11 Unig ddiben yr ymweliad â'r safle fydd galluogi'r Aelodau i weld y safle a chael eglurhad ynghylch ffeithiau. Ni fydd unrhyw drafodaethau'n digwydd yn ystod yr ymweliad â'r safle ynghylch rhinweddau'r cais, ac ni fydd yr ymweliad â'r safle yn cael ei ddefnyddio fel fforwm ar gyfer dadl. Ni fydd unrhyw argymhellion yn cael eu gwneud yn ystod yr archwiliad o'r safle. Ni fydd aelodau'r cyhoedd/partïon sydd â buddiant yn cael eu gwahodd i fynychu ymweliad â safle. Os byddant yn bresennol, mewn lleoliad cyhoeddus, caiff yr Aelodau eu hatgoffa i beidio â thrafod â nhw.

4.12 Os byddai cael eglurhad ychwanegol yn ddefnyddiol, a gyda chytundeb Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, bydd yr ymgeisydd a/neu'r asiant sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd yn cael ei wahodd i fod yn bresennol yn ystod y rhan berthnasol o'r ymweliad â'r safle, os oes angen hynny er mwyn caniatáu mynediad i'r safle. Dylai Swyddogion hysbysu'r asiant a/neu'r ymgeisydd nad yw mynychu'r ymweliad â'r safle yn gyfle i drafod rhinweddau'r achos, ond ei fod yn hytrach yn galluogi'r Aelodau i ddeall nodweddion y safle'n well.

4.13 Nid yw ymweliad â safle yn gyfarfod ffurfiol o'r Awdurdod, a bydd yn cael ei weithredu'n unol â'r gweithdrefnau canlynol:

- Bydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn cadeirio ac yn rheoli'r ymweliad â'r safle;
- Bydd yr Aelodau yn aros gyda'i gilydd fel grŵp ac ni fyddant yn trafod ag unrhyw un nad yw'n bresennol yn ffurfiol yn rhan o'r ymweliad â'r safle;
- Bydd Swyddogion yn cael cais gan Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio i nodi'r agweddau a arweiniodd at benderfynu bod angen ymweld â'r safle. Caiff yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau i Swyddogion;
- Dylai'r Aelodau sicrhau bod yr ymweliad â'r safle wedi gwella eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r safle a'i gyd-destun er mwyn iddynt allu ffurfio eu barn am yr agweddau a arweiniodd at benderfynu bod angen ymweld â'r safle. Ni ddylai'r farn honno gael ei thrafod ym mhresenoldeb yr ymgeisydd a/neu asiant neu unrhyw drydydd parti. Bydd Clerc y Pwyllgor yn bresennol yn ystod yr ymweliad â'r safle i gofnodi'r trafodion o ran y lleoliad, y rheswm dros ymweld â'r safle, y sawl a oedd yn bresennol, amser dechrau

ac amser gorffen y cyfarfod, a'r mannau yr ymwelwyd â nhw o fewn y safle. Noder na fydd hwn yn gofnod air am air o'r cyfarfod. Bydd y cofnodion hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol.

**5.0 Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio**

5.1 Mae Adran 54A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan fel a ganlyn: "*Applications for planning permission, or the renewal of planning permission, should be determined in accordance with the approved or adopted development plan for the area, unless material considerations indicate otherwise*". Felly, os yw'r Cynllun Datblygu yn berthnasol, mae'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu ynghylch ceisiadau yn unol â'r cynllun oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r gofyniad statudol hwn yn un o'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer dull yr Awdurdod o wneud penderfyniadau.

5.2 Y Cynllun Datblygu ar hyn o bryd yw'r Cynllun a fabwysiadwyd ar gyfer yr ardal, sef yn yr achos hwn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Chynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2007-2022).

5.3 Bydd Agendâu'r Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys adroddiadau am y canlynol:

- 'Eitemau i benderfynu yn eu cylch' – sy'n cynnwys ceisiadau (ceisiadau cynllunio, cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth, gorchmynion cadw coed, hysbysiadau gorfodi, a dargyfeiriadau hawliau tramwy) ac unrhyw faterion eraill yn ymwneud â Rheoli Datblygu y mae'n ofynnol i Aelodau wneud penderfyniad yn eu cylch; ac
- 'Eitemau i'w nodi' – y mae penderfyniad wedi'i wneud yn eu cylch yn barod dan bwerau a ddirprwywyd. Gall Aelodau gymryd rhan mewn dadl neu ofyn cwestiynau i Swyddogion am 'Eitemau i'w nodi'.

Mae adroddiadau am geisiadau nas dirprwywyd yn adroddiadau llawn sy'n ymdrin â'r holl ystyriaethau perthnasol (o ran cynllunio) a'r holl faterion er mwyn galluogi Aelodau i wneud penderfyniad ynghylch cais. Ni fwriedir i adroddiadau gan Swyddog Cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio roi adroddiad manwl am egwyddorion cyfreithiol perthnasol, sy'n ailadrodd holl fanylion y ffeithiau perthnasol i Aelodau'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am y penderfyniad. Dylai adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio gael eu paratoi ar ran y Pennaeth Rheoli Datblygu fel a ganlyn:

- Dylai adroddiadau fod yn fanwl gywir a dylent gynnwys, ymhlith pethau eraill, grynodeb o sylwedd unrhyw sylwadau gan drydydd parti a barn y sawl yr ymgynghorwyd â nhw, fel yr argymhellir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- Dylai gwybodaeth berthnasol gynnwys esboniad clir, cryno a chynhwysfawr o'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol perthnasol; y cynllun datblygu; hanes y safle neu hanes cysylltiedig; ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill;
- Dylai adroddiadau gynnwys casgliadau technegol sy'n cyfiawnhau'r argymhelliad yn glir;
- Os yw argymhelliad yr adroddiad yn groes i ddarpariaethau'r cynllun datblygu, mae'n rhaid i'r ystyriaethau perthnasol sy'n cyfiawnhau'r argymhelliad gael eu datgan yn glir;

- Bydd adroddiadau'n cael eu rhoi yn ysgrifenedig a byddant yn cynnwys argymhelliad ysgrifenedig ar gyfer gweithredu. Dylid osgoi rhoi adroddiadau ar lafar sy'n cyflwyno gwybodaeth a/neu sylwadau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn barod yn yr adroddiad ysgrifenedig (oni bai bod angen diweddaru adroddiad neu grynhoi sylwadau hwyr) a dylid cofnodi adroddiad llafar o'r fath yn ofalus pan fo'n digwydd.

5.4 Bydd Swyddogion yn darparu cyflwyniad cryno ar bob cais cynllunio nas dirprwywyd sydd ar yr agenda. Bydd yn cynnwys cyflwyniad gweledol o leoliad y safle, cynlluniau sy'n darlunio'r cynigion, ffotograffau ac unrhyw gyflwyniadau gweledol eraill yr ystyrir eu bod yn briodol. Bydd Swyddogion yn tybio bod yr Aelodau wedi mynd ati cyn y cyfarfod i adolygu'r adroddiadau am geisiadau nas dirprwywyd, felly dim ond crynodeb byr ar lafar o'r materion allweddol a'r argymhelliad y byddant yn ei ddarparu.

5.5 Gall aelodau'r cyhoedd siarad mewn perthynas ag 'Eitemau i benderfynu yn eu cylch', ac mae'n rhaid i gais i siarad gael ei gyflwyno'n unol â'r Polisi ynghylch Presenoldeb Aelodau'r Cyhoedd mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau a Chyfleoedd Iddynt Siarad Ynddynt. Ni fydd unrhyw siarad cyhoeddus yn digwydd mewn perthynas ag 'Eitemau i'w nodi'. Gall Aelodau sydd wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn mater penodol barhau i wneud cais i siarad dan Bolisi'r Awdurdod ynghylch Presenoldeb Aelodau'r Cyhoedd mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau a Chyfleoedd Iddynt Siarad Ynddynt. Gallant hefyd wneud cais i'r Pwyllgor Safonau am Ollyngiad i Siarad (gweler y Polisi Gollyngiadau i Aelodau am fanylion).

5.6 I'r graddau y bo'n ymarferol, dylai'r Swyddog Monitro neu rywun arall sy'n ddigon cymwys a Chlerc y Pwyllgor fod yn bresennol bob amser yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio i sicrhau bod gweithdrefnau wedi cael eu dilyn yn briodol.

5.7 Dylai Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio fynychu sesiwn friffio gyda Swyddogion cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, er mwyn helpu i sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn effeithiol.

### 5.8 Sylwadau

5.8.1 O bryd i'w gilydd, bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn cael gohebiaeth a gwybodaeth berthnasol arall gan bobl neu grwpiau sydd â buddiant yng nghanlyniad cais cynllunio y mae angen penderfynu yn ei gylch, a gallai fod pwysau i ymateb. Yn achlysurol, bydd Aelod yn cael llawer o ohebiaeth na ofynnwyd amdani a gwybodaeth arall am geisiadau mwy dadleuol. Caiff yr Aelodau eu cynghori i beidio ag ateb yr ohebiaeth hon a pheidio ag ymateb iddi, ac i'w hanfon ymlaen yn hytrach at y Rheolwr Rheoli Datblygu (a'r Gwasanaeth Cymorth Cynllunio) er mwyn i'r wybodaeth gael ei hadolygu ac er mwyn i unrhyw wybodaeth newydd neu berthnasol gael ei dwyn i sylw'r holl Aelodau yn y cyfarfod (gweler adran 2 'Lobïo' am arweiniad ychwanegol).

5.8.2 Bydd adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys crynodeb o unrhyw faterion a godwyd gan drydydd partïon ac sydd wedi dod i law cyn cyhoeddi'r Agenda. Os yw'n briodol, adroddir ar lafar yng nghyfarfod y Pwyllgor am unrhyw ohebiaeth neu wybodaeth ychwanegol sydd wedi dod i law ers i bapurau agenda'r

Pwyllgor Cynllunio gael eu cyhoeddi, gan sicrhau bod y pwys a roddir arni a'r amlygrwydd a roddir iddi yn cyd-fynd â'i pherthnasedd.

5.8.3 Adroddir yn y ffordd strwythuredig ganlynol am unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law ar ôl i agenda'r Pwyllgor Cynllunio gael ei chyhoeddi: bydd unrhyw ohebiaeth (ar ffurf copi caled neu gopi electronig) sy'n dod i law'r Aelodau a/neu Swyddogion o fewn tri diwrnod gwaith i'r cyfarfod yn cael ei diystyru oherwydd ei bod yn ohebiaeth rhy hwyr. Mae hynny ar yr amod bod y cyfnod ymgynghori lleiaf o 21 diwrnod wedi mynd heibio (neu gyfnod pellach yn achos ailymgynghori). Ni fydd y llythyrau hyn yn cael eu ffeilio a byddant yn cael eu diystyru oni cheir amgylchiadau eithriadol lle codir mater newydd nad yw wedi'i ystyried yn flaenorol ac a allai effeithio ar y penderfyniad sydd i'w wneud. Bydd hynny'n digwydd yn ôl disgresiwn y Pennaeth Rheoli Datblygu a fydd yn ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle, ac fel y cytunwyd â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

5.8.4 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio ar ddydd Mawrth fel rheol. Yr amser a'r dyddiad olaf ar gyfer cael gohebiaeth hwyr yw 5pm ar y dydd Iau blaenorol. Bydd y weithdrefn hon yn caniatáu o leiaf dau ddiwrnod gwaith clir i ohebiaeth hwyr gael ei chrynhoi a'i chyflwyno i'r Aelodau gyda'r cyngor priodol gan Swyddogion.

5.9 Mae dyletswydd ar yr Aelodau i ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o ganlyniad i ymgynghori â chyrff sydd â buddiant neu o ganlyniad i hysbysiad cyhoeddus neu hysbysiad ar gyfer cymdogion. Wrth wneud hynny, mae'n angenrheidiol penderfynu pa sylwadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad sydd i'w wneud ac, os felly, faint o bwys y dylid ei roi arnynt. Ni ddylid dod i'r casgliad hwn nes y bydd yr holl wybodaeth a'r holl ddadleuon wedi cael eu cyflwyno a'u hystyried.

5.10 Os ceir diwygiad o bwys i unrhyw gais cynllunio ar ôl paratoi'r adroddiad i'r Pwyllgor, bydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Pennaeth Rheoli Datblygu a fydd yn ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle yn ystyried a ddylid tynnu'r eitem oddi ar yr agenda cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Os yw'r agenda wedi'i chyhoeddi, bydd yr eitem yn aros ar yr agenda ond adroddir ar lafar ar yr adeg berthnasol yn y cyfarfod am y rheswm dros dynnu'r eitem oddi ar yr agenda/gohirio trafod yr eitem.

5.11 Os bydd cais yn symud ymlaen i'r Pwyllgor Cynllunio a bod gwybodaeth berthnasol newydd yn dod i'r amlwg yn y cyfarfod, gall y Pwyllgor benderfynu:

a) Gohirio rhoi ystyriaeth i'r cais; neu
b) Dirprwyo'r penderfyniad yn dilyn unrhyw ailymgynghori angenrheidiol.

Mewn achosion eraill, os yw'r Pennaeth Rheoli a Datblygu a fydd yn ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gall Swyddogion gyflwyno gwybodaeth newydd ar lafar. Fodd bynnag, os yw'r wybodaeth yn sylweddol, bydd fel arfer yn rhaid gohirio ystyriaeth gan y Pwyllgor er mwyn paratoi arfarniad ysgrifenedig a'i gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol.

## 6.0 Penderfyniadau sy'n groes i argymhelliad Swyddog a/neu'r Cynllun Datblygu

6.1 Mae'r Llysoedd wedi mynegi'r farn, os yw Pwyllgor Cynllunio yn gwneud penderfyniad sy'n groes i argymhelliad Swyddog (boed i gymeradwyo neu wrthod), y dylai'r rhesymau fod yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio cadarn. Prin y bydd amgylchiadau personol ymgeisydd yn darparu rhesymau o'r fath.

6.2 Pryd bynnag y bydd y Pwyllgor Cynllunio yn bwriadu penderfynu ynghylch cais cynllunio mewn modd sy'n groes i argymhelliad Swyddog, bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio ddiffinio a rhestru mewn modd clir ac argyhoeddedig y rhesymau cynllunio dros wrthod argymhelliad y Swyddog, ac yna pleidleisio ynghylch y rhesymau hynny. Mae'n rhaid cofnodi'r rhesymau yn y cofnodion a bydd y cais yn cael ei ohirio tan gyfarfod cyfleus nesaf y Pwyllgor Cynllunio yn unol â'r darpariaethau canlynol.

6.3 Yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Cynllunio, bydd y Pennaeth Rheoli Datblygu yn ymateb mewn adroddiad ysgrifenedig pellach i'r rhesymau a luniwyd gan y Pwyllgor Cynllunio dros beidio â derbyn yr argymhelliad cynharach. Bydd yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

a) ***Os yw'r Aelodau yn bwriadu rhoi caniatâd yn groes i argymhelliad i wrthod,*** bydd yn cynnwys amodau drafft sydd i'w hatodi i'r caniatâd a, lle bo'n briodol, telerau unrhyw rwymedigaeth gynllunio/cytundeb cyfreithiol priodol; neu
b) ***Os yw'r Aelodau yn bwriadu gwrthod rhoi caniatâd yn groes i argymhelliad i gymeradwyo,*** bydd yn egluro rhesymau ffurfiol dros wrthod, sy'n adlewyrchu barn flaenorol y Pwyllgor Cynllunio; yn cynghori ynghylch y dystiolaeth a fyddai ar gael i gyfiawnhau'r rhesymau hynny; ac yn cynnwys unrhyw resymau eraill dros wrthod, y mae'r Swyddog yn ystyried y gellid eu cyfiawnhau pe bai yna apêl.

Os nad yw'r Pwyllgor Cynllunio yn bwriadu derbyn argymhelliad dilynol y Pennaeth Rheoli Datblygu, bydd yn ystyried unwaith eto ei resymau dros beidio â derbyn cyngor y Swyddog. Bydd y rhesymau hynny'n cael eu cofnodi'n ffurfiol wedyn yng nghofnodion y cyfarfod dilynol hwnnw.

6.4 Os gwrthodir rhoi caniatâd cynllunio yn groes i gyngor Swyddog, dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r risg y gallai costau gael eu dyfarnu yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl a fyddai'n dilyn.

## 7.0 Cynigion datblygu a gyflwynir gan Aelodau a Swyddogion

7.1 Mae'n hawdd i gynigion i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gan Aelodau a Swyddogion cyfredol a blaenorol[3] a'u ffrindiau a'u perthnasau agos (h.y. eu priod, eu partner, eu rhiant, eu plentyn neu'u brawd/chwaer) arwain at amheuon ynghylch amhriodoldeb. Gall cynigion fod ar ffurf ceisiadau cynllunio neu ar ffurf cynigion sy'n ymwneud â chynllun datblygu. Ym mhob gohebiaeth a chyfarfod ac ati, dylai'r Aelodau a'r Swyddogion nodi eu statws.

7.2 Ni ddylai Cynghorwyr a Swyddogion cyfredol fyth weithredu fel asiantiaid i bobl sy'n ymdrin â mater cynllunio gyda'u Hawdurdod. Os byddant yn cyflwyno eu cynigion eu hunain i'r Awdurdod, ni ddylent chwarae unrhyw ran yn y gwaith o'u prosesu.

[3] *'Blaenorol' = y Swyddogion a'r Aelodau sydd wedi gadael yr Awdurdod lai na 12 mis cyn i'w cais cynllunio gael ei gyflwyno.*

7.3 Adroddir am gynigion o'r fath i'r Pwyllgor Cynllunio fel prif eitemau ac ni fydd Swyddogion yn ymdrin â nhw dan bwerau a ddirprwywyd. Mae'r un peth yn wir am geisiadau ac ati a wneir gan Aelodau blaenorol a Swyddogion blaenorol.

7.4 Os ceir cynnig gan Swyddog cyfredol neu flaenorol (neu gan berthynas neu ffrind agos), rhaid i'r Swyddog:

(a) Hysbysu'r Pennaeth Rheoli Datblygu pan fydd y cais yn cael ei wneud neu cyn gynted ag y daw i sylw'r Swyddog;
(b) Os yw'n Swyddog cyfredol, hysbysu Swyddog Monitro'r Awdurdod yn ysgrifenedig. Bydd copi o'r hysbysiad yn cael ei roi ar y Gofrestr Buddiannau Swyddogion a gedwir gan y Swyddog Monitro;
(c) Peidio â chwarae unrhyw ran yn y broses benderfynu; ac
(ch) Cydymffurfio â darpariaethau perthnasol eraill y Protocol hwn.

7.5 Os ceir cynnig gan Aelod (neu berthynas neu berson y mae'n cael ei gyflogi ganddo neu y mae ganddo gysylltiad personol agos ag ef), neu os oes gan yr Aelod (am unrhyw reswm) fuddiant rhagfarnus yn y mater, yna rhaid i'r Aelod:

(a) Hysbysu'r Pennaeth Rheoli Datblygu pan fydd y cais yn cael ei wneud neu cyn gynted ag y daw i sylw'r Aelod;
(b) Cydymffurfio â darpariaethau perthnasol eraill y Protocol hwn; a chaiff
(c) Mynychu un o gyfarfodydd yr Awdurdod ond dim ond at ddiben cyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cynnig, ar yr amod y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod at yr un diben. Ar ôl gwneud sylwadau o'r fath, rhaid i'r Aelod:
(ch) Gadael y cyfarfod ar unwaith; a,
(d) Peidio â chwarae unrhyw ran yn y broses benderfynu.

7.6 Os oes gan Aelod fuddiant rhagfarnus mewn mater (fel y diffinnir yng Nghod Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer Aelodau), ni fydd yr Aelod yn cysylltu â Swyddogion Cynllunio yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, nac yn gwneud sylwadau ar lafar nac yn ysgrifenedig mewn perthynas â'r cais, ac ni fydd yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad mewn perthynas â'r cais.

## 8.0 Cynigion datblygu a gyflwynir gan yr Awdurdod

8.1 Mae'n hollbwysig bod pobl yn gweld bod yr Awdurdod yn trin ceisiadau ar gyfer ei ddatblygiad ei hun (neu ddatblygiad sy'n cynnwys yr Awdurdod a pharti arall) yn yr un modd ag y mae'n trin pob cais arall.

8.2 Bydd pob cais o'r fath yn rhwym wrth yr un prosesau gweinyddu – gan gynnwys prosesau ymgynghori – ag y bydd ceisiadau preifat, a byddant yn cael eu hystyried yn unol â pholisi ac unrhyw ystyriaeth berthnasol arall ym maes cynllunio.

8.3 Er mwyn sicrhau tryloywder a didwylledd, ni fydd cynigion gan yr Awdurdod (ac eithrio er mwyn cyflawni amodau a gwneud mân ddiwygiadau) yn cael eu trin dan bwerau a ddirprwywyd i Swyddogion; yn hytrach, bydd y Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu yn eu cylch.

## 9.0 Hyfforddi a monitro

9.1 Mae'n **RHAID** i Aelodau fynychu sesiwn sefydlu gychwynnol **A** sesiynau hyfforddi rheolaidd er mwyn cael arweiniad ynghylch rheoliadau a gweithdrefnau cynllunio ac ynghylch datgelu buddiannau personol.

9.2 Bob hyn a hyn, dylai Aelodau ailystyried sampl o ganiatadau cynllunio a weithredwyd er mwyn asesu ansawdd y penderfyniadau. Dylai adolygiad o'r fath wella ansawdd a chysondeb prosesau penderfynu, gan gryfhau hyder y cyhoedd yn y system gynllunio, a gall helpu gydag adolygiadau o bolisïau cynllunio.

9.3 Gorau oll os gellir cynnal adolygiadau o leiaf yn flynyddol. Byddant yn cynnwys enghreifftiau o ystod eang o gategorïau, megis datblygiadau mawr a bach; gwyriadau a ganiatawyd; eitemau a ddirprwywyd; apeliadau a gadarnhawyd; gwaith ar adeiladau rhestredig ac achosion gorfodi. Bydd nodiadau briffio'n cael eu paratoi ar bob achos. Bydd y Pwyllgor Cynllunio yn ystyried yr adolygiad yn ffurfiol ac yn penderfynu a yw'n esgor ar yr angen i ailystyried unrhyw bolisïau neu arferion.

## 10.0 Cwynion/Cadw cofnodion

10.1 Pa weithdrefnau bynnag y mae awdurdod cynllunio'n eu gweithredu, mae'n debygol y bydd cwynion yn cael eu gwneud. Fodd bynnag, dylai dilyn yr arweiniad hwn leihau'n sylweddol yr adegau pan fydd cyfiawnhad dros gwynion. Dylai olygu hefyd bod llai o reswm gan bobl i gwyno yn y lle cyntaf.

10.2 Un o ganlyniadau rhesymegol mabwysiadu protocol lleol o arfer cynllunio da yw y dylai fod gan yr Awdurdod system gadarn ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae gan yr Awdurdod weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion ffurfiol. Dylid cofio bod achwynwyr sy'n honni bod y cod ymddygiad lleol statudol wedi'i dorri yn gallu cyfeirio eu honiadau'n ysgrifenedig yn uniongyrchol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

10.3 Er mwyn gallu ymchwilio'n llawn i gwynion, ac fel mater o arfer da cyffredinol beth bynnag, dylai'r drefn ar gyfer cadw cofnodion fod yn gynhwysfawr ac yn fanwl gywir. Gallai achosion o hepgor gwybodaeth a nodi gwybodaeth anghywir, ynddynt eu hunain, arwain at gŵyn neu danseilio achos yr Awdurdod. Y rheol arweiniol yw y dylai pob cais cynllunio gynnwys cyfrif cywir o ddigwyddiadau trwy gydol oes y cais. Dylai fod yn bosibl i rywun nad yw'n ymwneud â'r cais ddeall beth oedd y penderfyniad a pham a sut y cafodd ei wneud. Mae angen cymryd gofal penodol gyda cheisiadau y penderfynir yn eu cylch dan bwerau a ddirprwywyd i Swyddogion, os na cheir atgyfeiriad i Bwyllgor Cynllunio. Dylai penderfyniadau o'r fath gael eu dogfennu a'u cofnodi mewn modd cystal â'r penderfyniadau a wneir gan Aelodau. Mae'r egwyddorion hyn yr un mor berthnasol i faterion gorfodi ac i faterion sy'n ymwneud â chynllun datblygu.

**11.0 Gweithdrefnau galw ceisiadau i mewn**

11.1 Gall unrhyw Aelod ofyn am i gais y disgwylir i Swyddogion benderfynu yn ei gylch dan awdurdod a ddirprwywyd gael ei 'alw i mewn' er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu yn ei gylch yn lle hynny.

11.2 Dim ond os cydymffurfir â phob un o'r amodau canlynol y bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle neu'r Pennaeth Rheoli Datblygu yn derbyn cais gan Aelod i alw cais cynllunio i mewn:

a) Caiff y cais ei gyflwyno yn ysgrifenedig drwy gwblhau'r ffurflen ar gyfer galw cais i mewn a thrwy anfon y ffurflen i planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk ac at y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle neu'r Pennaeth Rheoli Datblygu; a

b) Mae'r cais yn dod i law cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cafodd y rhestr wythnosol o geisiadau cynllunio, y bwriedir ymdrin â nhw dan bwerau a ddirprwywyd, ei hanfon at holl Aelodau'r Awdurdod; ac

c) Mae'r cais yn nodi'n llawn y rhesymau cynllunio pam y dylai'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio; ac

ch) Mae'r cais yn nodi:

- i) A fydd y broses o alw'r cais cynllunio i mewn yn digwydd dim ond os yw'r Swyddog yn argymell y dylid caniatáu'r cais; neu
- ii) A fydd y broses o alw'r cais cynllunio i mewn yn digwydd dim ond os yw'r Swyddog yn argymell y dylid gwrthod y cais; neu
- iii) A fydd y broses o alw'r cais cynllunio i mewn yn digwydd waeth beth y mae'r Swyddog yn ei argymell.

11.3 Bydd adroddiad y Swyddog yn nodi (i) pa Aelod wnaeth arfer yr hawl i alw cais cynllunio i mewn, a (ii) y rhesymau cynllunio a roddwyd ynghylch pam y dylai'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio.

11.4 Pan fydd y Pennaeth Rheoli Datblygu wedi derbyn y bydd cais cynllunio'n cael ei alw i mewn gan Aelod, y Pwyllgor Cynllunio fydd yn penderfynu wedyn ynghylch y cais cynllunio, hyd yn oed os bydd yr Aelod yn gofyn yn nes ymlaen am i'w gais i alw'r cais cynllunio i mewn gael ei dynnu'n ôl.

11.5 Os bydd cais cynllunio penodol yn un y bydd y Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu yn ei gylch o ganlyniad i gais gan aelod o'r Pwyllgor Cynllunio i alw cais cynllunio i mewn, bydd angen i'r Aelod hwnnw ystyried yn ofalus y rhan y gall ei chwarae pan fydd y Pwyllgor Cynllunio yn dod i ystyried y cais dan sylw a phenderfynu yn ei gylch, yn enwedig os yw'r aelod o'r Pwyllgor Cynllunio sydd wedi gwneud y cais i alw cais cynllunio i mewn:

a) wedi mynegi ei gais mewn iaith a allai fod yn awgrymu ei fod wedi ffurfio barn glir a phendant yn barod ynghylch y canlyniad priodol ar gyfer y cais cynllunio; neu

b) wedi cyflwyno'r cais i alw cais cynllunio i mewn yn dilyn trafodaethau â'r ymgeisydd/asiant/gwrthwynebydd a/neu unrhyw drydydd parti.

11.6 Dylai'r Aelod ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch y rhan y bydd yn ei chwarae yn y broses benderfynu.